



Cyfarfod

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 23AIN CHWEFROR, 2021

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 15 Chwefror 2021)

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes

John Brynmor Hughes

Elfed Williams (Cadeirydd)

Gareth Williams (Eilydd)

Aelod Lleol

Y Cynghorydd Steve Collings

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryn ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. CAIS AM ADOLYGIAD TRWYDDED EIDDO

5 - 8

THE WAVERLEY HOTEL, 10, HEOL YR ORSAF, BANGOR

I ystyried y cais

TREFN MEWN GWRANDAWIADAU I WYRO TRWYDDED

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
6. Gwahoddiad i bob ymgynghorai gefnogi sylwadau ysgrifenedig
7. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.
8. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Atgoffir pawb o'r pedwar egwyddor o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen ei ystyried, sef:

- 1. Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
- 2. Diogelwch y Cyhoedd;**
- 3. Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
- 4. Amddiffyn plant rhag niwed:**

Eitem 4

PWYLLGOR:	IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
DYDDIAD:	23 o Chwefror 2021
TEITL:	CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO - THE WAVERLEY, BANGOR
PWRPAS:	ER PENDERFYNIAD
AWDUR:	PENNAETH AMGYLCHEDD

1. CAIS A DDERBYNIWYD

- 1.1 Atodir cais i adolygu trwydded eiddo Yr Waverley Hotel, 10 Heol yr Orsaf, Bangor LL57 1LR gan yr Arolygydd Chris Hargrave ar ran Heddlu Gogledd Cymru. Gwneir y cais am adolygiad oherwydd methiant i gydymffurfio gyda amodau'r drwydded eiddo mewn perthynas a amodau CCTV, methiant i ofyn am brawf oedran i unigolion sy'n ymddangos i fod o dan 18; a methiant deilydd y drwydded i gadw rheolaeth yng nghyd-destun yr argyfwng Covid -19.
- 1.2 Mae'r Heddlu yn nodi fod pryder gan y Cyhoedd am yr eiddo a'r diffygion mewn rheolaeth. Mae hyn yn cael ei amlygu gan ddeiseb ar lein yn gofyn am i'r eiddo gael ei gau i lawr. Noder fod cannoedd o bobl wedi arwyddo'r ddeiseb.

2. Cefndir

- 2.1 Fe welir o'r cais fod yr Heddlu wedi ystyried cynnig i ddeilydd y drwydded gyflwyno cais am Fân Amrywiad o'r drwydded eiddo ; ond oherwydd yr amgylchiadau; ac methiant niferus deilydd y drwydded i reoli'r sefyllfa; mae'r Heddlu yn awyddus i gyflwyno'r cais i'r Is Bwyllgor hwn er mwyn sicrhau adolygiad llawn gyda ystyriaeth i'r newidiadau a argymhellir i'r drwydded .
- 2.2 Noder yn y cais fod yr Heddlu wedi amlygu nifer o faterion gyda deilydd y drwydded; ac fod llawer o ohebiaeth wedi bod rhwng deilydd y drwydded a swyddog trwyddedu'r Heddlu, a'r Cyngor oherwydd methiant i weithredu ar argymhellion. Yn ddiweddar, noder fod argymhelliad i sicrhau fod goruchwylwyr drysau ar yr eiddo bob nos Wener a Nos Sadwrn wedi cael ei anwybyddu ar y cyfan; ac fod angen i hyn gael ei gynnwys fel amod er mwyn galluogi monitro cydymffurfiaeth.
- 2.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

3. Problemau a ganfuwyd gan Heddlu Gogledd Cymru

- 3.1 **Teledu Cylch cyfyng TCC**
- 3.2 Nid yw'r Teledu Cylch Cyfyng (TCC) presennol yr eiddo yn dangos yr oll o'r ardaloedd trwyddedig, a'r ardaloedd hynny sy'n berthnasol i amodau'r drwydded. Fe amlygwyd hyn pan fu i HGC gael achos i wirio recordiad llawn o'r TCC ar y 19/9/20
- 3.3 Nid yw Maes parcio'r eiddo yn cael ei ddangos o gwbl ar y TCC
- 3.4 Nid yw'r ardal lle caniateir eistedd tu allan yn cael ei ddangos yn llawn; ac yn ogystal, ni ellir gweld y byrddau o gwbl pan ddefnyddir yr ymbarelau. Fe ddaeth hyn i'r amlwg pan oedd yr Heddlu yn ymchwilio achos o ymosodiad difrifol ar yr eiddo ar y 19/9/20; ac nid oedd yn bosib gweld tystiolaeth allweddol oherwydd hyn.

3.5 Unigolion dan oed yn yfed

3.6 Fel rhan o ymchwiliad yr Heddlu i droseddau difrifol ar y 19/9/20, fe adnabuwyd o leiaf 2 unigolyn a oedd o dan oed ; a lle roedd alcohol wedi ei weini iddynt. Fe arhosodd yr unigolion hyn yn y dafarn am gyfnod hir ac fe brynwyd gwirodydd ganddynt heb unrhyw her o ran eu hoedran.

3.7 Unigolion ar 'Pub-watch'

3.8 Er fod cymryd rhan yn y Cynllun 'Pub-watch' lleol yn wirfoddol; yn ystod eu ymholiadau fe adnabu'r Heddlu unigolion oedd wedi cael eu gwahardd o dan y Cynllun yn yfed ar yr eiddo ar y 19/9/20; ac mae hyn yn enghraifft arall o ddiffyg rheolaeth ar yr eiddo.

3.9 Methiant i gydymffurfio a rheoliadau a gwaharddiadau Covid-19

3.10 Nid yw cydymffurfio gyda rheoliadau covid yn ei hun yn amodol ar drwyddedau; ond mae yn hanfodol bwysig fod pob deilydd trwydded yn cydymffurfio gyda'r rheoliadau pwysig hyn sydd mewn lle er mwyn cyfarch yr amcan trwyddedu o gadw pobl yn ddiogel.

3.11 Dengys recordiad TCC a wiriwyd yn dilyn digwyddiad troseddol y 19/9/20 fod sawl tramgydd difrifol mewn perthynas a'r rheoliadau; gan amlygu staff a cwsmeriaid i botensial sylweddol o risgiau trosglwyddiad y firws.

3.12 Ar y 23ain o Hydref 2020, yn dilyn rhyddhau'r dystiolaeth TCC gan yr Heddlu i swyddogion gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd; fe gyflwynwyd Rhybudd Gwella Mangre o dan y Rheoliadau Diogelu'r Cyhoedd Cyfyngiadau Coronafirws 2020 gan y Cyngor.

3.13 Adroddiadau o anrhefn ac ymddygiad ymosodol ar yr eiddo

3.14 Dywed yr Heddlu fod yr eiddo wedi bod yn ganolbwynt i ymddygiad annerbyniol ac anrhefn dros y misoedd diwethaf. Amlygir sawl adroddiad o anrhefn fel achos ar y 16eg o Awst 2020 lle y derbyniwyd adroddiad fod dros 20 o bobl yn cwffio ar yr eiddo. Cafwyd adroddiad arall ar y 16eg o Fedi 2020 fod dau ddyn yn ffraeo yn yr eiddo; ac ar y 19fed o Fedi derbyniwyd adroddiad fod pobl yn cwffio tu allan i'r eiddo.

4. Amodau trwydded a argymhellir gan yr Heddlu ar gyfer eu cynnwys ar drwydded yr eiddo

4.1 Argymhellir fel a ganlyn –

- O leiaf 2 oruchwyliwr diogelwch dynodedig ar yr eiddo bob Nos Wener a nos Sadwrn o 18:00 tan hanner awr ar ôl amser cau.
- Goruchwylwyr diogelwch ar gyfer unrhyw achlysuron eraill lle disgwylir cynnydd mewn nifer o gwsmeriaid
- TCC i recordio pob lleoliad cyhoeddus (ar wahân i unedau toiledau) tu mewn a thu allan i'r eiddo; ac i fod ar gael i gynorthwyo ymchwiliadau'r Heddlu.
- TCC i fod yn gweithio ddigon da i fodloni'r Heddlu a'r Cyngor
- Sicrhau fod safon y goleuo yn ddigonol i fedru adnabod unigolion
- TCC i recordio a cadw delweddau am o leiaf 28 diwrnod
- Recordiad TCC i fod ar gael i'r Heddlu a'r Cyngor
- O leiaf 1 aelod o staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ar lawr lwytho delweddau ar gais yr Heddlu neu ar gais swyddog awdurdodedig i fod ar gael

- Gosod arwyddion rhybuddion fod system TCC yn weithredol ar yr eiddo
- Sicrhau fod recordiad o ddiogelwch yn cael eu cadw yn ddiogel ar gyfer yr Heddlu.
- Cydymffurfriad llawn gyda rheoliadau cyfyngiadau Covid cyfredol
- Hyfforddiant ar gyfer staff i sicrhau dealltwriaeth llawn o'r gyfraith o safbwynt peidio caniatáu yfed o dan ddeunaw; a sut i herio unigolion sydd yn ymddangos i fod yn ieuengach na 25 oed
- Mabwysiadu polisi 'Her 25'
- Cofnodion hyfforddiant mewn perthnas a polisi Her 25 i fod a'r gael i'r Awdurdodau cyfrifol
- Polisi 'dim cerdyn adnabod – dim gwerthiant
- Arwyddion yn nodi fod polisi o'r fath yn weithredol
- Sicrhau goruchwyllo unrhyw blant ar y eiddo gan oedolion drwy gydol yr adeg

5. Ymgynghoriad ar y cais adolygiad

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

YMATEBION	SYLWADAU
Gwarchod y Cyhoedd	E-bost – cefnogi, a chyflwyno tystiolaeth
Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu	E-bost – sylwadau a chefnogi
Gwasanaeth Tan ac Achub	E-bost – sylwadau

5.1 Sylwadau Gwarchod y Cyhoedd

Derbyniwyd e bost yn cadarnhau cefnogaeth i adolygiad yr Heddlu o'r drwydded ar sail yr amcanion trwyddedu o ddiogelu'r cyhoedd ac atal niwsans cyhoeddus. Fe gadarnhawyd fod tystiolaeth o ddiffygion o ran rheolaeth ymlendaeniad Covid 19 wedi ei dystiolaethu wrth wyllo recordiad o noson y 19/9/20 ar yr eiddo, ac fod hyn wedi arwain at gyflwyno Rhybudd Gwella Mangre o dan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ar deilydd y drwydded Hayley Meek ar y 23ain o Hydref 2020.

5.2 Sylwadau Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu

Derbyniwyd sylwadau mewn cefnogaeth o'r cais adolygiad ; yn benodol yn manylu ar ymweliadau i'r eiddo ar y cyd gyda'r Heddlu yn dilyn cwynion am sŵn cerddoriaeth uchel yn dod o'r eiddo yn ystod cyfnod o gyfyngiadau Covid yn ystod mis Medi. Nodwyd fod cydymffurfriad ar y cyfan gyda rheolau cyfyngiadau Covid yn ystod yr ymweliad ar y 16 o Fedi.

Fe nododd deilydd y drwydded wrth y swyddogion ar y pryd ei bod yn teimlo'n rwystredig gan fod deilwyr trwydded eiddo ym Mangor Uchaf yn gyrru unigolion oedd wedi eu gwahardd drwy 'Pub-watch' i lawr i'r Waverley; gan eu bod yn honni y byddai croeso iddynt yno. Nododd Ms Meek fod yn anodd iawn gweithredu i hel yr unigolion hyn o'r eiddo.

Ymhellach , nodwyd fod ymweliad arall i'r eiddo ar y 25 o Fedi wedi amlygu nad oedd yr Asesiad Risg Covid yn gyflawn. Roedd yr ymweliad wedi ei gynnal yn dilyn sawl cwyn gan y cyhoedd , ynghyd a thystiolaeth fideo oddi ar gyfryngau cymdeithasol yn dangos pobl yn dawnsio a chanu , a deilydd y drwydded yn amlwg yn cymeryd rhan yn y dathlu ; tra roedd pawb yn y fideo i weld yn anwybyddu rheolau pellhau cymdeithasol.

5.3 Sylwadau Swyddog Gwasanaeth Tan ac Achub

Cafwyd sylwadau gan y gwasanaeth Tan yn dilyn archwiliad o'r eiddo a gynhaliwyd ar y 5ed o Ragfyr 2020. Noder fod materion sy'n berthnasol i ddiogelwch tan angen sylw gan deilydd y drwydded .

4 ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Is Bwyllgor ystyried cais yr Heddlu i adolygu Trwydded yr eiddo; ynghyd a'r dystiolaeth berthnasol a gyflwynir, a sylwadau'r ymatebwyr; yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003.

Argymhellir fod yr Is Bwyllgor yn caniatáu'r adolygiad o drwydded yr eiddo gan Heddlu Gogledd Cymru.